Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Tongwynlais

**Heol Merthyr**
**Tongwynlais**
**Caerdydd**
**CF15 7LF**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Tongwynlais

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Tongwynlais |
| Awdurdod lleol | Cyngor Caerdydd |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 197 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 145 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 24 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 20.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 7.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 8.1% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 17/04/2023 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/12/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 05/06/2023 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae’r term ‘anghenion dysgu ychwanegol’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio’r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae'r disgyblion yn Ysgol Gynradd Tongwynlais yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn cymryd rhan mewn gwersi a gweithgareddau yn llawn brwdfrydedd. Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn gweithio'n effeithiol i sicrhau eu bod yn hapus a diogel pan fyddant yn yr ysgol. Mae cymorth yr ysgol ar gyfer lles disgyblion yn gryf ac mae staff yn gweithio'n llwyddiannus i ddarparu ar gyfer anghenion disgyblion unigol a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau neu ofidiau a allai fod ganddynt. Mae'r ysgol yn ymwybodol o'r heriau a allai fod yn wynebu rhai teuluoedd o ganlyniad i amddifadedd ac yn gweithio'n ystyriol ac yn sensitif i sicrhau nad yw hyn yn cael effaith negyddol ar brofiadau dysgu eu plant.

Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau dysgu difyr sy'n aml yn ennyn diddordeb y disgyblion ac yn eu gwneud yn awyddus i ddysgu. Maent yn cynnwys disgyblion yn dda mewn cynllunio testunau, gwersi a gweithgareddau dysgu, a dyma un o'r rhesymau y mae disgyblion yn gweld eu gwersi mor ddiddorol. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau y mae athrawon yn eu cynllunio bob amser yn canolbwyntio'n ddigon clir ar y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion. Yn ogystal â hyn, nid yw'r cwricwlwm yn sicrhau bod disgyblion yn adeiladu'n effeithiol ar eu dysgu blaenorol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da â'u medrau llythrennedd, rhifedd a meddwl ond nid yw eu gallu i ddeall a defnyddio'r Gymraeg wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae'r strwythur arweinyddiaeth ar gyfer y ffederasiwn yn mynd trwy gyfnod o newid. Mae'r pennaeth yn newydd i'w rôl, ar ôl bod yn ddirprwy bennaeth ar gyfer y ffederasiwn yn y gorffennol. Trwy adeiladu ar ei swydd flaenorol, mae wedi parhau i ddatblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol yn llwyddiannus gyda staff a rhieni ar draws y ddwy ysgol. Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn awyddus i wneud y gorau o fanteision bod yn rhan o ffederasiwn, er enghraifft trwy ddefnyddio cryfderau sy'n bodoli mewn un darparwr i wneud gwelliannau yn y llall. Maent yn ymwybodol nad yw cyfrifoldebau arwain yn cael eu dosbarthu'n ddigon cyfartal nac yn ddigon effeithiol ar hyn o bryd, a bod gormod o feysydd pwysig yn cael eu goruchwylio gan y pennaeth ar hyn o bryd, yn ogystal â'i rôl strategol ehangach.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod cyfrifoldebau arwain yn cael eu dosbarthu'n effeithiol ac yn canolbwyntio ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion

A2 Gwella ansawdd a chysondeb yr addysgu

A3 Sicrhau bod y cwricwlwm yn datblygu medrau a gwybodaeth disgyblion yn raddol ac yn bodloni gofynion statudol

A4 Codi safonau yn y Gymraeg

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn gweithio gyda’r awdurdod lleol i adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn llawer o feysydd dysgu, fel yn eu medrau darllen a’u medrau meddwl. Fodd bynnag, nid ydynt yn datblygu eu gwybodaeth a’u medrau yn y Gymraeg yn ddigon da. At ei gilydd, yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, nid yw ychydig o ddisgyblion bob amser yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud yn eu dysgu. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd cadarn tuag at eu targedau unigol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau siarad a gwrando yn effeithiol. Yn y dosbarth meithrin a’r dosbarth derbyn, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn llawn cyffro am bethau sy’n bwysig iddynt ac yn rhoi esboniad manwl am bethau y maent wedi’u dysgu, fel sut i ofalu am y gwenyn yn eu cwch gwenyn. Mae llawer ohonynt yn gwrando ar gyfarwyddiadau yn dda ac yn ymateb yn briodol. Wrth iddynt symud ymlaen trwy’r ysgol, maent yn parhau i ddatblygu’r medrau hyn yn dda. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer ohonynt yn siarad yn fanwl am ddigwyddiadau yn eu bywydau, fel esbonio am y sbwriel a welsant ar draeth a’r camau a gymeron nhw i helpu ei glirio. Mae bron pob un ohonynt yn gwrando’n barchus ar oedolion, ac ar ei gilydd. Maent yn siarad gyda’i gilydd mewn grwpiau bach yn aeddfed i rannu eu syniadau.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen cryf. Maent yn dangos brwdfrydedd ac ymgysylltiad cadarnhaol â darllen ac â llyfrau. Yn y dosbarth derbyn, mae disgyblion yn mwynhau edrych ar lyfrau yn y gornel lyfrau ac yn defnyddio’u dealltwriaeth o lythrennau a seiniau yn dda i ddarllen geiriau syml. Maent yn siarad am y storïau maen nhw’n eu darllen ac yn rhoi esboniad manwl am yr hyn sy’n digwydd. Erbyn Blwyddyn 3, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn frwdfrydig ar lefel sy’n briodol i’w cyfnod datblygu. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar fedrau darllen effeithiol ac yn mwynhau darllen ystod eang o destunau. Mae ganddynt ddealltwriaeth fanwl o storïau y maent wedi’u darllen ac yn defnyddio hyn i ystyried ac esbonio gweithredoedd cymeriadau yn ystyriol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn effeithiol. Yn y dosbarth derbyn, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau ysgrifennu’n hyderus at ystod addas o ddibenion, er enghraifft ysgrifennu brawddegau syml i greu gwahoddiadau i barti. Erbyn Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu’n briodol mewn amrywiaeth o ffyrdd ac yn defnyddio geirfa ddiddorol i fywiogi eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif ohonynt yn sillafu nac yn defnyddio atalnodi’n ddigon da. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu at ystod dda o ddibenion ac yn deall nodweddion gwahanol ffurfiau ysgrifennu’n dda. Maent yn defnyddio

ystod dda o eirfa i fywiogi eu gwaith, ac mae eu sillafu yn gywir, ar y cyfan. Mae llawer ohonynt yn ysgrifennu i safon debyg yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau Cymraeg yn ddigon da. Yn y dosbarth meithrin, mae llawer o ddisgyblion yn ateb y gofrestr yn syml ac yn mwynhau canu caneuon Cymraeg. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn betrusgar gan ddefnyddio ychydig o eiriau ac ymadroddion priodol, er enghraifft wrth ofyn i bobl eraill sut maen nhw. Mae ychydig iawn ohonynt yn rhoi ymatebion estynedig, er enghraifft ateb mewn brawddegau llawn i gwestiynau am y tywydd. Mae llawer o ddisgyblion yn ymgysylltu'n frwdfrydig â sesiynau Cymraeg, ond erbyn Blwyddyn 6, maent ond yn defnyddio ychydig o eiriau ac ymadroddion syml yn hyderus.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau mathemateg a rhifedd effeithiol. Yn y dosbarth derbyn, maent yn datblygu medrau cyfrif cynnar yn gyflym ac yn dechrau deall cysyniadau, fel dilyniannu, yn briodol. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar ystod briodol o fedrau rhif, fel adio a lluosi, ac maent yn defnyddio'r rhain yn hyderus. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol a sut i'w cymhwyso yn eu dysgu. Mae ganddynt ystod eang o fedrau rhif, fel y gallu i luosi a rhannu yn gywir. Mae mwyafrif ohonynt yn cymhwyso'r medrau hyn yn dda i ddatrys problemau ac i sefyllfaoedd bywyd go iawn, fel dod o hyd i'r gostyngiad canran yng nghost eitemau mewn gwerthiant.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu ystod ddefnyddiol o fedrau digidol ac yn defnyddio'r rhain i ymestyn eu gwaith ar draws y cwricwlwm yn dda. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn gwneud cynnydd digon cryf mewn ychydig o feysydd, fel defnyddio taenlenni a chronfeydd data. Yn y dosbarth derbyn, mae disgyblion yn defnyddio'u medrau digidol yn fedrus i recordio disgyblion eraill yn ail-ddweud stori The Rainbow Fish. Ym Mlwyddyn 1, mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu medrau dilyniannu a medrau meddwl yn dda wrth raglennu gwenynen robot fach i symud mewn patrwm penodol. Mae disgyblion hŷn yn mewngofnodi i'w hystafell ddosbarth ar-lein yn annibynnol i greu cyflwyniadau a chwblhau tasgau wedi'u pennu gan eu hathro. Erbyn Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cyflwyniadau dychmygus i rannu eu gwaith, er enghraifft ar y fforest law. Mae ychydig o ddisgyblion yn deall ac yn defnyddio codio sylfaenol, ac mae gan ychydig iawn ohonynt ddealltwriaeth gyfyngedig o sut i ddefnyddio neu greu taenlen syml.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu medrau meddwl effeithiol a buddiol. Ym Mlwyddyn 1, mae disgyblion yn defnyddio eu testun am 'Hedfan' i ddatblygu ymchwiliad gan ddefnyddio anemomedr y maent wedi'i greu eu hunain i fesur cryfder y gwynt mewn rhannau amrywiol o'r ysgol. Ym Mlwyddyn 6, mae disgyblion yn dangos medrau meddwl wedi'u hymgorffori'n dda. Maent yn defnyddio ystod o strategaethau i ystyried ac esbonio elfennau o'u dysgu yn fedrus. Er enghraifft, maent yn ystyried achos ac effaith datblygiadau'r plot yn eu llyfr dosbarth.

### Lles ac agweddau at ddysgu

O ganlyniad i'r flaenoriaeth uchel y mae staff yn ei rhoi i les disgyblion, ceir awyrgylch cynnes a chroesawgar yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn saff, ac yn hapus. Maent yn gwybod gyda phwy i siarad os bydd

ganddynt unrhyw bryderon, ac y bydd staff yn gwrando arnynt ac yn cymryd camau priodol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn barchus â staff, eu cyfoedion, a phobl sy'n ymweld â'r ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar ei gilydd mewn gwersi ac yn dangos parch at syniadau ac awgrymiadau pobl eraill. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 6, mae disgyblion yn gwrando ar, ac yn ymateb yn gadarnhaol i, safbwyntiau pobl eraill ar lygredd a sut y gellir mynd i'r afael â hyn. Mae gan yr ysgol strategaeth ymddygiad effeithiol, ac o ganlyniad, mae gan bron bob un o'r disgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd glynu at y rheolau cytunedig. Mewn ychydig o achosion, lle mae ymddygiad yn heriol, mae staff yn delio â hyn yn effeithiol, ac mae disgyblion yn dychwelyd at y dasg yn gyflym.

Mae llawer o ddisgyblion yn dal ati i ganolbwyntio ac yn osgoi pethau sy'n tynnu eu sylw yn dda. Maent yn dangos diddordeb gwirioneddol yn eu gwaith, a brwdfrydedd pan fyddant yn gwneud rhywbeth newydd. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 1 yn dangos cyffro go iawn wrth ddysgu am fagneteg ac ymchwilio i ba ddeunyddiau sy'n fagnetig. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn rhannu ac yn siarad am eu dysgu yn awyddus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau'r ysgol a'r ystod o glybiau allgyrsiol a gynigir sy'n eu cynorthwyo i ddatblygu eu medrau corfforol a chreadigol. Mae grwpiau llais y disgybl yn yr ysgol yn cyfrannu'n gadarnhaol at fywyd yr ysgol. Er enghraifft, ymgysylltodd y Cyngor Ysgol yn frwdfrydig â rhannu eu syniadau wrth ddylunio parthau yn y maes chwarae sy'n annog disgyblion i fod yn egnïol yn ystod amser cinio ac amser egwyl. Mae penodi Llysgenhadon Gwych yn ddiweddar yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth disgyblion o'u hawliau fel plentyn a'r effaith y gallant ei chael o fewn yr ysgol, er enghraifft, trwy gynllunio a chreu sied gwisg ysgol ail-law lle gall teuluoedd gyfnewid eitemau gwisg ysgol.

Mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth gynyddol o'u rolau fel dinasyddion cyfrifol sy'n mynd ati i ddylanwadu ar eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill yn eu cymuned a thu hwnt, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau gwerthfawr i godi arian. Mae disgyblion yn deall a thrafod sut gallant gadw'n iach a phwysigrwydd gweithgarwch corfforol a diet cytbwys.

Yn ystod gwersi a gweithgareddau, mae bron pob un o'r disgyblion yn derbyn awgrymiadau athrawon, ac yn gwneud gwelliannau priodol i'w gwaith. Mae mwyafrif ohonynt yn gwneud newidiadau addas i'w gwaith ar ôl cael adborth ysgrifenedig gan athrawon. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn gwneud hyn yn ddigon da. O ganlyniad, mewn ychydig o achosion, maent yn colli cyfleoedd i ddeall sut a ble y gallent fod wedi gwneud camgymeriadau yn eu gwaith.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Ceir perthnasoedd gweithio cryf a chadarnhaol iawn rhwng staff a disgyblion. Maent yn dangos parch ar y ddwy ochr a chwrteisi tuag at ei gilydd. Mae oedolion yn adnabod disgyblion yn dda ac yn defnyddio ystod o strategaethau a ddeellir yn dda i helpu disgyblion i reoli eu hymddygiad a'u hemosiynau. Er enghraifft, maent yn creu gofodau diogel mewn ystafelloedd dosbarth lle gall disgyblion gymryd yr amser i reoli

sut maen nhw'n teimlo. Mae oedolion yn modelu iaith gadarnhaol, y mae disgyblion wedyn yn ei mabwysiadu wrth siarad â'i gilydd.

Mewn mwyafrif o wersi, mae athrawon yn gosod cyflymdra da ar gyfer dysgu, yn sicrhau cydbwysedd rhwng eu mewnbwn a gweithgarwch disgyblion yn briodol, yn gofyn cwestiynau pwrpasol i alluogi disgyblion i egluro ac ymestyn eu meddwl a herio a chynorthwyo disgyblion ar y lefel gywir. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n annog disgyblion i archwilio, ymchwilio a defnyddio'u medrau creadigol. Fodd bynnag, nid yw'r nodweddion hyn o addysgu da, sy'n galluogi disgyblion i ddysgu orau, yn cael eu cymhwyso'n gyson ar draws yr ysgol. Yn ychwanegol, pan mae'r addysgu'n llai llwyddiannus, er eu bod yn darparu gweithgareddau ac adnoddau sy'n cysylltu â thema dosbarth, nid yw athrawon bob amser yn glir ynglŷn â'r hyn maen nhw eisiau i'w disgyblion ei ddysgu. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn defnyddio'u hamser ar weithgareddau nad ydynt bob amser yn eu helpu i ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth neu gymhwyso'u medrau ar lefel briodol. Mae hyn yn arbennig o wir am lawer o ddisgyblion yn y dosbarth meithrin a'r dosbarth derbyn.

Mewn mwyafrif o wersi, mae athrawon yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig sy'n helpu disgyblion i ddeall sut i wella'u gwaith. Fodd bynnag, ni chaiff dull cytunedig yr ysgol ei gymhwyso'n gyson, ac mae hyn yn golygu, ar adegau, bod disgyblion yn parhau i ailadrodd yr un camgymeriadau neu'n atgyfnerthu'r un camdybiaethau.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio ystod o ddata asesu yn dda i grwpio disgyblion, er enghraifft wrth eu grwpio i gefnogi datblygiad eu medrau seinegol a darllen cynnar. Mae ychydig o athrawon yn defnyddio'r wybodaeth yn system olrhain asesiadau newydd yr ysgol yn fuddiol i lywio'u cynllunio ar gyfer unigolion a grwpiau o ddisgyblion, ond megis dechrau datblygu y mae hyn, ar y cyfan.

Mae'r ysgol yn dechrau datblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer ei chwricwlwm, gyda lles yn ganolog iddi. Mae staff wedi ymgysylltu'n dda â dysgu proffesiynol ac wedi gweithio'n effeithiol gydag ysgolion lleol i ddechrau datblygu cwricwlwm pwrpasol, eang a chytbwys. Fodd bynnag, nid yw cwricwlwm yr ysgol yn sicrhau bod medrau a gwybodaeth disgyblion yn datblygu'n gydlynus ac yn raddol wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol. O ganlyniad, nid ydynt bob amser yn adeiladu'n effeithiol ar ddysgu blaenorol. Yn ychwanegol, nid oes cynllun cyffredinol ar gyfer cyflwyno Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh), sy'n elfennau statudol o'r cwricwlwm. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o natur ddiwylliannol, ieithyddol ac amrywiol Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn cynllunio'n dda ar gyfer datblygiad strwythuredig medrau Cymraeg disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu ystod addas o themâu diddorol sy'n cefnogi llawer o agweddau ar ddatblygiad disgyblion yn briodol, fel eu hiechyd a'u lles, a'u hymwybyddiaeth o amrywiaeth a chydraddoldeb. Mae'r themâu hyn, ynghyd â nifer o adnoddau cyhoeddedig, yn ffurfio sylfaen gadarn ar gyfer dysgu wedi'i gynllunio. Mae athrawon yn gweithio gyda disgyblion i ddyfeisio ystod briodol o destunau a gweithgareddau dysgu sy'n ennyn diddordeb llawer o ddisgyblion. Er enghraifft, ar ddechrau themâu, mae disgyblion yn awgrymu gweithgareddau diddorol yr hoffent ymgymryd â nhw. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar frwdfrydedd disgyblion ar gyfer eu dysgu a pha mor dda y maent yn ymroi i dasgau.

Caiff y cwricwlwm ei ehangu gan ystod dda o ymweliadau addysgol a phreswyl sy’n atgyfnerthu dysgu’n briodol. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn ymweld â chanolfan breswyl yr Urdd yn Llangrannog ac fe gaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu gwydnwch a’u gallu i gydweithio â’u cyfoedion. Mae athrawon yn ymgorffori ymweliadau gan sefydliadau allanol ac unigolion eraill yn rheolaidd i ehangu dysgu’r disgyblion. Er enghraifft, defnyddiodd staff ymweliad diweddar gan Gweithredu dros Blant i ddatblygu amrywiaeth ddiddorol o weithgareddau dysgu a oedd yn annog disgyblion i drafod a mynegi eu hemosiynau. Mae’r cwricwlwm yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddysgu am sut i ddilyn ffyrdd o fyw iach ac egnïol.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llafar, darllen ystod o destunau ac ysgrifennu mewn amrywiaeth o genres. Maent yn defnyddio ystod eang o strategaethau ac adnoddau i ddatblygu medrau mathemategol disgyblion ac yn sicrhau cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol i gefnogi eu dysgu. Er enghraifft, mae bron pob un o’r disgyblion yn defnyddio platfformau digidol yn annibynnol i gwblhau gweithgareddau dysgu. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh, fel y gallu i ddefnyddio taenlenni a chronfeydd data.

Mae’r cwricwlwm dysgu sylfaen yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion o’r dosbarth meithrin i Flwyddyn 2 ddysgu yn yr awyr agored. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn datblygu eu medrau creadigol tra’n archwilio gyda ‘rhannau rhydd’.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Gynradd Tongwynlais yn ysgol gynnes, groesawgar a hynod ofalgar. Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn ac mae perthnasoedd gweithio cryf rhwng staff a disgyblion, ac ymhlith y disgyblion eu hunain, yn amlwg ar draws yr ysgol. Mae gan yr ysgol berthnasoedd effeithiol â rhieni sy’n cefnogi dysgu a lles y disgyblion yn dda. Mae’r rhan fwyaf o rieni’n teimlo bod yr ysgol yn galluogi eu plant i fod yn hapus a diogel ac yn credu bod yr ysgol yn cefnogi eu hanghenion yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr a staff yn cydweithio i hyrwyddo ethos o gynhwysiant a chymorth. Mae hyn yn cynorthwyo anghenion cymdeithasol, iechyd ac emosiynol disgyblion yn effeithiol ac yn cynnwys ystod gynhwysfawr o fentrau lles a gofal meddygol unigol. Mae staff yn cymhwyso strategaethau ymyrraeth ymddygiad yn gyson, sy’n golygu bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu rheoli eu hemosiynau’n llwyddiannus pan fyddant yn gweld sefyllfaoedd yn heriol. Mae staff wedi datblygu systemau effeithiol i ddisgyblion gael cymorth emosiynol ac mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus i fanteisio ar hyn pan fydd angen.

Mae gan yr ysgol systemau cadarn i nodi ac olrhain disgyblion ag anghenion dysgu penodol. Mae’r cydlynydd ADY, athrawon a staff cymorth arbenigol eraill yn defnyddio data a gwerthusiadau’n bwrpasol i ddarparu cymorth teilwredig ar gyfer disgyblion sydd ag ADY. Mae staff yn cydweithio’n dda ag asiantaethau allanol, fel athrawon arbenigol awdurdodau lleol, seicolegwyr addysg ac elusennau, i gynorthwyo disgyblion ag anghenion penodol. Mae athrawon yn creu cynlluniau datblygu unigol, sy’n bwrpasol ac wedi’u hysgrifennu’n dda, sy’n amlinellu’n glir y

cymorth y bydd disgyblion yn ei dderbyn, a sut bydd cynnydd yn cael ei fesur. Maent yn datblygu proffiliau un dudalen defnyddiol sy'n amlinellu diddordebau disgyblion a sut yr hoffent gael eu cynorthwyo i ddysgu. Mae'r camau hyn yn helpu sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn tuag at eu targedau unigol.

Mae defnydd athrawon o 'fyrddau cynllunio disgyblion' yn helpu sicrhau bod gan ddisgyblion lais cryf yn eu dysgu. Ceir sawl grŵp llais y disgybl sy'n gwneud cyfraniadau priodol at fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae Cyngor Eco Tongwynlais yn gyfrifol am ailgylchu a monitro defnydd o ynni yn yr ysgol, ac mae'r Llysgenhadon Gwych wedi gweithio gydag arweinwyr i gynllunio ffyrdd o leihau effaith tlodi ar ddisgyblion a theuluoedd.

Mae staff yn darparu llawer o gyfleoedd i ddisgyblion wneud ymarfer corff yn ystod y diwrnod ysgol a chymryd rhan mewn ystod o glybiau ar ôl yr ysgol, fel criced a rownderi, clwb addysg gorfforol a phêl-droed. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi a mwynhau'r gweithgareddau hyn.

Mae gweithredoedd rheolaidd o addoli a chysylltiadau â grwpiau eglwysig lleol yn cefnogi datblygiad ysbrydol disgyblion yn briodol. Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf â chymuned eglwys yn yr Unol Daleithiau ac mae ei haelodau wedi ymweld i gyflwyno gwasanaethau a gwersi, a oedd yn ddifyr a diddorol, ym marn y disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio ar werthoedd a materion pwysig, fel yr argyfwng hinsawdd, perthnasoedd iach a hawliau dynol. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i fyfyrio ar ystod o faterion moesegol a moesol yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn datblygu cysylltiadau da â grwpiau cymunedol amrywiol, fel y llyfrgell a'r cartref gofal lleol. Mae athrawon yn annog disgyblion i fod yn rhagweithiol yn y gymuned, er enghraifft trwy ddarparu cyfleoedd iddynt ysgrifennu at y Cyngor i awgrymu mentrau posibl i wella'r gymuned.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau i helpu disgyblion i ddatblygu gwerthfawrogiad o'u hunaniaeth a'u treftadaeth a chynyddu eu dealltwriaeth o'r amrywiaeth yn eu cymuned leol, Cymru, a'r byd ehangach. Trwy brosiectau ymchwil, mae staff yn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o faterion yn ymwneud ag amrywiaeth a chydraddoldeb yn effeithiol, fel hanes a phrofiadau pobl ddu ac ethnig leiafrifol ddylanwadol, fel Stevie Wonder, Mary Secole, Simone Biles a Martin Luther King.

Mae staff yn yr ysgol yn adnabod eu disgyblion a'u teuluoedd yn dda. Maent yn sicrhau bod trefniadau priodol i gynorthwyo disgyblion i ddysgu sut i aros yn ddiogel ar-lein. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a saff, ac mae'r ysgol yn sicrhau bod gweithdrefnau effeithiol ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw achosion o fwlio a adroddwyd. At ei gilydd, mae trefniadau'r ysgol i ddiogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn newydd iawn i'r swydd ar ôl bod yn ddirprwy bennaeth gweithredol ar draws y ffederasiwn yn flaenorol. Mae'n cynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol â staff a rhieni ac yn llwyddo i ennyn eu hyder yn ei rôl newydd. Mae staff

yn arbennig yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn credu bod arweinwyr yn cymryd eu lles o ddifri. Mae'r pennaeth yn modelu arweinyddiaeth fyfyriol ac ystyriol ac mae ganddo weledigaeth glir ar gyfer y ffederasiwn yn seiliedig ar gydweithio, cefnogi lles disgyblion a defnyddio cryfderau ar draws y ffederasiwn i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Er enghraifft, mae staff yn Nhongwynlais wedi dechrau rhannu eu hymagwedd gadarnhaol tuag at ddatblygu medrau meddwl disgyblion gyda chydweithwyr yn Coryton.

Mae arweinwyr yn rhoi sylw manwl i effaith tlodi ar gynnydd a phrofiadau dysgu disgyblion. Er enghraifft, maent wedi sefydlu siediau darllen a gwisg ysgol ar gyfer cyfnewid llyfrau a dillad ysgol. Maent hefyd yn gweithio i gynorthwyo teuluoedd mewn angen trwy ddosbarthu pecynnau bwyd, ac wedi dechrau dosbarthu talebau banc bwyd yn ddiweddar.

Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau priodol o staff ac ansawdd eu gwaith. Maent yn annog staff i fyfyrio ar eu harfer a chymryd cyfrifoldeb am eu harfer eu hunain. Fodd bynnag, nid yw ansawdd yr addysgu yn gyson ar draws y ffederasiwn nac o fewn pob ysgol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn glir ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau. Fodd bynnag, nid yw'r dosbarthiad presennol o ran rolau a chyfrifoldebau yn effeithiol; mae gan y pennaeth ormod o rolau pwysig a llafurus, yn ogystal â'i rôl strategol gyffredinol. Er enghraifft, mae'n goruchwylio cymorth y ffederasiwn ar gyfer disgyblion ag ADY, ei gwricwlwm a'i weithdrefnau asesu. Nid yw'r trefniadau hyn yn gynaliadwy nac yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn gweithio'n briodol gyda llywodraethwyr i oruchwylio dyraniad cyllideb pob ysgol, gwariant grant ac adnoddau eraill. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y cyllidebau ar gyfer y ddwy ysgol mewn diffyg sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol, ac nid oes cynllun cytunedig ar waith i gywiro'r sefyllfa hon. Caiff y grant datblygu disgyblion ei ddyrannu'n briodol i gynorthwyo disgyblion targedig.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ffederasiwn a'r meysydd i'w gwella. Er enghraifft, maent yn cydnabod bod angen sicrhau bod arweinyddiaeth yn cael ei dosbarthu'n fwy effeithiol ar draws y ffederasiwn a bod angen datblygu ei hymagwedd at gynllunio ar gyfer dilyniant ymhellach, yn unol â gofynion y Cwricwlwm i Gymru. Maent yn dechrau dangos y gallu i weithredu strategaethau gwella yn effeithiol mewn ychydig o feysydd allweddol. Er enghraifft, mae gwaith diweddar i wella ansawdd addysgu darllen a datblygu'r defnydd o ddarllen dan arweiniad mewn grŵp wedi dechrau effeithio'n gadarnhaol ar fedrau disgyblion.

Mae arweinwyr wedi rhoi amserlen gynhwysfawr o fonitro, gwerthuso ac adolygu ar waith sy'n cael ei chynnal ar draws y ffederasiwn, ac yn cynnwys ystod o uwch arweinwyr ac arweinwyr canol. Mae gweithgareddau monitro wedi'u hymgorffori'n dda ac yn cwmpasu ystod dda o waith yr ysgol. Er enghraifft, mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn edrych ar waith disgyblion ar draws y ffederasiwn, yn arsylwi gwersi, yn siarad â disgyblion am eu profiadau dysgu ac yn cynnal arolwg o safbwyntiau rhieni. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau hyn yn canolbwyntio'n ddigon agos ar effaith gwaith yr ysgol ar gynnydd disgyblion o ran datblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Mae arweinwyr yn cynnwys ystod addas o randdeiliaid yn eu prosesau hunanwerthuso a gwella, fel athrawon, disgyblion a rhieni. Mae athrawon yn gweithio ar draws y ffederasiwn yn dda i ystyried safonau a nodi meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn cydnabod bod angen ymgysylltu ag ystod ehangach o staff ac ymgysylltu'n llawnach â phartneriaid eraill, fel rhieni, yn y prosesau hyn.

Mae arweinwyr yn datblygu diwylliant cadarnhaol o ddysgu proffesiynol sy'n adeiladu ar y cryfderau o fewn y ffederasiwn i helpu mynd i'r afael â meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Yn gynyddol, mae arweinwyr yn defnyddio cryfderau penodol y staff i wella'r ddarpariaeth. Mewn llawer o achosion, mae dysgu proffesiynol yn llwyddiannus o ran gwella arfer broffesiynol staff a sicrhau deilliannau gwell ar gyfer disgyblion. Mae staff yn y ddwy ysgol yn ymgysylltu ag ystod bwrpasol o ddysgu proffesiynol sy'n cysylltu'n dda â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw effaith dysgu proffesiynol yn gyson ar draws y ffederasiwn ac nid yw prosesau hunanwerthuso bob amser yn nodi anghysondebau yn ddigonol o ran sut mae staff yn cymhwyso dulliau newydd.

Mae Ysgol Gynradd Tongwynlais yn rhan o bartneriaeth addysg Prifysgol Metropolitan Caerdydd ac yn ysgol arweiniol ar gyfer hyfforddiant cychwynnol i athrawon. Mae hyn yn golygu bod staff yr ysgol yn gyfrifol am ddarparu dysgu proffesiynol ar gyfer tua 30 o fyfyrwyr ac ymarfer addysgu ar gyfer 8 i 11 o fyfyrwyr bob blwyddyn.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol i waith y ffederasiwn ac mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o'i gryfderau a'r meysydd i'w gwella. Maent yn gwerthfawrogi manteision posibl gweithio mewn ffederasiwn ac yn awyddus i uchafu'r manteision hyn tra'n cynnal nodweddion unigryw pobl ysgol.

Mae llywodraethwyr yn cefnogi datblygu diwylliant diogelu ar draws y ffederasiwn yn effeithiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau, gan gynnwys wrth ddelio â chwynion a materion a godir gan rieni. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth briodol o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/08/2023